# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Committee Room 5 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Rhagfyr 2020

Amser: 13.30 - 15.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6527

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Neil Hamilton AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Syr David Henshaw, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Clare Pillman, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Andrea Storer (Dirprwy Glerc)<br>Katy Orford (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei gyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Jenny Rathbone AS yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwaith craffu blynyddol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr David Henshaw, Clare Pillman a Ceri Davies, Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**3.1 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â threfniadau llywodraethu amgylcheddol dros dro ar gyfer diwedd y cyfnod gweithredu**

**3.2 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019**

**3.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â bioamrywiaeth**

**3.4 Gohebiaeth gan Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip mewn perthynas a'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd**

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitem 2

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod eitem 2.

## 6 Trafodaeth ar flaenraglen waith y Pwyllgor

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.